WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad dilynol o drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant – **Cyngor Caerdydd**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1244A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Caerdydd fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Phillips a Sara-Jane Byrne dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi bod yn araf yn rhoi nifer o'n hargymhellion a'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ar waith, ond mae wedi gwneud cynnydd dros y misoedd diwethaf. Rydym wedi adnabod rhai cynigion pellach ar gyfer gwella i gryfhau agweddau ar drefniadau diogelu'r Cyngor


Adroddiad cryno 4

Asesiad o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'n hadroddiad yn 2015 6

Asesiad o'r cynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella o'n hadroddiad yn 2014 16

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe gynhaliom ni'r adolygiad hwn i geisio sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau corfforaethol effeithiol i ddiogelu plant. Fe wnaethom ystyried canfyddiadau'r adroddiad a gyhoeddwyd gennym yn 2014 ar drefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant[1]. Fe wnaethom hefyd ystyried cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, 'Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru' (Gorffennaf 2015)[2].

2 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod mis Ebrill 2019.

### Yr hyn a ganfuom

3 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw'r Cyngor wedi gweithredu ar yr argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella yn adroddiadau cenedlaethol a lleol yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd yn 2014 a 2015?

4 Ar y cyfan canfuom fel a ganlyn: Mae'r Cyngor wedi bod yn araf yn rhoi nifer o'n hargymhellion a'n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ar waith, ond mae wedi gwneud cynnydd dros y misoedd diwethaf. Rydym wedi adnabod rhai cynigion pellach ar gyfer gwella i gryfhau agweddau ar drefniadau diogelu'r Cyngor.

## Cynigion ar gyfer gwella

#### Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Dylai'r Cyngor wella'i ddull o ran hyfforddiant diogelu yn y ffyrdd canlynol:<br>• Sicrhau bod staff yn cwblhau hyfforddiant diogelu gorfodol yn gyflymach a datblygu'r gwaith a nodwyd gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol i goladu dadansoddiad canrannol o gydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu ym mhob un o Gyfarwyddiaethau'r Cyngor; |

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Cyngor Caerdydd,** Hydref 2014

[2] **Archwilydd Cyffredinol Cymru, Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru**, Gorffennaf 2015

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| | • Sicrhau ei fod yn mynd ati'n ganolog i goladu cofnodion hyfforddiant diogelu ar gyfer yr aelodau o staff a'r gwirfoddolwyr hynny sydd wedi cael hyfforddiant diogelu wyneb yn wyneb yn ogystal â'r hyfforddiant diogelu e-ddysgu;<br>• Egluro pryd y mae angen i hyfforddiant diogelu gorfodol ar gyfer staff ac aelodau gael ei ddiweddaru;<br>• Ystyried ffyrdd y gallai estyn ei arlwy hyfforddiant diogelu, er enghraifft adeiladu ar yr hyfforddiant ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant sydd yn yr arfaeth ar gyfer gyrwyr tacsi, a darparu hyfforddiant diogelu i'r rhai (er enghraifft) sy'n gweithio yn economi hwyr y nos;<br>• Cyflymu'r gyfradd gwblhau ar gyfer hyfforddiant gorfodol dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. |
| C2 | Gallai'r tudalennau diogelu corfforaethol ar fewnrwyd y Cyngor gael eu cryfhau trwy ddarparu:<br>• dolen i'r Polisi Diogelu Corfforaethol;<br>• gwybodaeth am y swyddog arweiniol ar gyfer diogelu corfforaethol, yr aelod arweiniol ar gyfer diogelu corfforaethol a'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol; a<br>• gwybodaeth ynglŷn â ble i hysbysu ynghylch pryderon neu i gael rhagor o wybodaeth. |
| C3 | Dylai'r Cyngor gryfhau ei Bolisi Recriwtio a Dethol mewn perthynas â diogelu a recriwtio diogel. |
| C4 | Dylai'r Cyngor gryfhau ei ddarpariaethau cytundebol o ran diogelu trwy fod yn fwy eglur ynglŷn â'i ofynion ar gyfer hyfforddiant diogelu. |
| C5 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn gallu cofnodi a monitro gwybodaeth am wirfoddolwyr yn ganolog, gan gynnwys unrhyw gofnodion hyfforddiant a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer gwirfoddolwyr. |

# Adroddiad cryno

## Asesiad o’r cynnydd yn erbyn yr argymhellion o’n hadroddiad yn 2015

### Mae’r Cyngor wedi bod yn araf yn rhoi nifer o’n hargymhellion a’n cynigion blaenorol ar gyfer gwella ar waith, ond mae wedi gwneud cynnydd dros y misoedd diwethaf. Rydym wedi adnabod rhai cynigion pellach ar gyfer gwella i gryfhau agweddau ar drefniadau diogelu’r Cyngor

Arddangosyn 2: cynigion ar gyfer gwella o adroddiad 2015 i gryfhau agweddau ar drefniadau diogelu’r Cyngor

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| A1 Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod: | |
| • penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau; | Wedi’i roi ar waith:<br>Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol sy’n cyflawni’r rôl hon. |
| • penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; | Wedi’i roi ar waith:<br>Mae Diogelu Corfforaethol yn rhan o bortffolio’r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad. |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| • dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. | Wedi'i roi ar waith yn rhannol – maes ar gyfer gwella wedi'i nodi.<br>Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn darparu gwybodaeth am rolau'r uwch swyddog arweiniol a'r aelod arweiniol dros ddiogelu corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi cadarnhau eu bod yn darparu gwybodaeth am y rolau hyn trwy hyfforddiant a diweddariadau ar gyfer staff ar fewnrwyd y Cyngor.<br>Yn unol â'r fersiwn ddiwygiedig o'r Polisi Diogelu Corfforaethol, mae'r Cyngor wedi dechrau cyhoeddi bwletinau diogelu rheolaidd ar gyfer staff.<br>Gallai'r tudalennau diogelu corfforaethol ar fewnrwyd y Cyngor gael eu cryfhau fel a nodir yn C2 uchod. |
| A2 Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor. | Wedi'i roi ar waith:<br>Fe ddiwygiodd y Cyngor ei Bolisi Diogelu Corfforaethol ym mis Ionawr 2019. Mae'n ddogfen gynhwysfawr sy'n darparu cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y Cyngor. |
| A3 Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy: | |
| • sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant; | Wedi'i roi ar waith yn rhannol – maes ar gyfer gwella wedi'i nodi.<br>• Mae gan y Cyngor Bolisi ar y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n glir o ran priod gyfrifoldebau, er ei fod yn hwyr yn cael ei adolygu (Mai 2016 yw'r dyddiad adolygu). Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i adolygu'r polisi hwn.<br>• Mae gan y Cyngor Bolisi Recriwtio a Dethol sydd hefyd yn hwyr yn cael ei adolygu (Tachwedd 2016 yw'r dyddiad adolygu). Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ddiweddaru'r polisi hwn ac mae wedi datgan bod y polisi'n cael ei adolygu ar hyn o bryd yn unol â newidiadau sy'n ymwneud â recriwtio diogel. Barn y Cyngor yw bod ei broses recriwtio |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | gorfforaethol yn cwmpasu nifer o eitemau dan recriwtio diogelach. Nid ydym yn anghytuno â'r safbwynt hwnnw, ond rydym yn credu y dylai materion diogelu gael lle mwy blaenllaw yn y Polisi Recriwtio a Dethol.<br>• Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn cyfeirio at Bolisi Recriwtio Diogel ond nid yw'r polisi hwn yn bodoli.<br>• Mae'r Cyngor wedi cydnabod gwendid sy'n bodoli yn ei drefniadau yn yr ystyr na fu Polisi Gwirfoddoli ganddo. Fodd bynnag, mae un wedi cael ei ddrafftio ac mae i fod i gael ei gyhoeddi'n fuan. |
| • creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a | Wedi'i roi ar waith yn rhannol – maes ar gyfer gwella wedi'i adnabod.<br>• Nid oes system ganolog ar gyfer gwirfoddolwyr ond mae'r Polisi Gwirfoddoli sydd ar fin cael ei gyhoeddi wedi'i fwriadu i gywiro hynny a dylai'r Cyngor gadw ei ffocws yn hyn o beth.<br>• Mae'r Cyngor yn storio gwybodaeth i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn perthynas â chyflogeion corfforaethol ar DigiGOV. Fodd bynnag, mae'n dal gwybodaeth cyflogeion eraill ar y system SAP ac mae wrthi ar hyn o bryd yn trosglwyddo'r wybodaeth honno i DigiGOV. Mae'n disgwyl cwblhau'r ymarfer hwnnw yn y ddau i dri mis nesaf. |
| • mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | Wedi'i roi ar waith, ond gyda gwaith pellach yn mynd rhagddo:<br>• Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn nodi y bydd y Cyngor yn sicrhau bod safonau recriwtio diogel yn cael eu cymhwyso a'u monitro o fewn y trefniadau cytundebol mewn gwasanaethau a gomisiynir gan y Cyngor neu drwy grantiau cymorth.<br>• Mae'r Cyngor wedi darparu enghreifftiau o gontractau sy'n cynnwys cymalau mewn perthynas â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, gan gynnwys gwirfoddolwyr y gallai'r contractwr eu defnyddio. |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | • Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwaith i'w wneud o hyd yn y maes hwn, yn enwedig mewn Cyfarwyddiaethau heblaw'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae Gwasanaeth Adnoddau, Comisiynu a Chaffael y Cyngor yn gweithio i gryfhau cymalau diogelu a gaiff eu cynnwys mewn dogfennaeth tendro a chontractau. |
| A4 Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy: | |
| • sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino; | Wedi'i roi ar waith, ond rhai meysydd ar gyfer gwella wedi'u hadnabod.<br>• Mae hyfforddiant diogelu'n orfodol i'r holl staff (naill ai trwy e-ddysgu neu hyfforddiant wyneb yn wyneb) ac mae'r Cyngor yn disgwyl i'r hyfforddiant hwn gael ei gwblhau o fewn tri mis cyntaf y gyflogaeth.<br>• Bu trafodaethau yn y Cyngor y dylai'r hyfforddiant diogelu gorfodol gael ei ddiweddaru bob tair blynedd. Fodd bynnag, nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud ynghylch hyn eto ac mae angen i'r Cyngor egluro pryd y mae angen i hyfforddiant diogelu gorfodol ar gyfer staff ac aelodau gael ei ddiweddaru.<br>• Yn ôl y sefyllfa ym mis Mawrth 2019, darparodd y Cyngor ffigwr ar ein cyfer o 3818 allan o 6227 aelod o staff a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu gorfodol e-ddysgu. Mae hyn ychydig dros 61%. Dylai'r Cyngor gyflymu'r gyfradd cydymffurfio â chwblhau ei hyfforddiant diogelu gorfodol. Mae adroddiad cynnydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol dyddiedig Ionawr 2019 wedi nodi bod angen gwaith pellach er mwyn cofnodi dadansoddiad canrannol o'r holl staff mewn adrannau sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant yn llwyddiannus. Nid yw'r Cyngor wedi darparu ffigyrau y gofynasom ni amdanynt ar gyfer staff sydd wedi cael hyfforddiant diogelu wyneb yn wyneb. |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | • Mae gan y Cydwasanaethau Rheoleiddio gynlluniau i redeg rhagor o ddigwyddiadau hyfforddi pwrpasol sy'n gysylltiedig â diogelu. Bydd y Cydwasanaethau Rheoleiddio'n cynnal rhaglen o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn y gymuned tacsis a bydd yn hyfforddi swyddogion y Cydwasanaeth Rheoleiddio i adnabod camfanteisio, caethwasiaeth neu fasnachu pobl yn ystod eu gwaith. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor ystyried ffyrdd pellach y gallai estyn ei arlwy hyfforddiant diogelu, gan adeiladu ar y cynigion hyn. Er enghraifft, ystyried darparu hyfforddiant diogelu ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn economi hwyr y nos.<br>• Hyd yma, nid yw hyfforddiant diogelu ar gyfer aelodau wedi bod yn orfodol, ac roedd y nifer a gymerodd ran yn y cylch blaenorol o hyfforddiant diogelu yn 2017 yn wael gyda dim ond 15 aelod yn ei gwblhau. Fodd bynnag, ym mis Ionawr 2019 fe gadarnhaodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y bydd hyfforddiant diogelu'n orfodol i aelodau yn y dyfodol a bwriedir y bydd aelodau'n cael yr hyfforddiant hwnnw erbyn mis Gorffennaf 2019.<br>• Mae'r disgrifiad rôl ar gyfer aelodau etholedig wedi cael ei ddiweddaru'n ddiweddar i gynnwys gwybodaeth am ddiogelu ac am y ffaith bod aelodau'n rhiant corfforaethol.<br>• Mae'n un o ofynion Llywodraeth Cymru bod hyfforddiant mewn perthynas â Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn orfodol ar gyfer yr holl staff, ond ar hyn o bryd dim ond 54% o staff sydd wedi'i gwblhau. Gweler PFI 1. |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| • creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a | Wedi'i roi ar waith yn rhannol:<br>• O ran staff yn adrannau'r Cyngor, modiwl e-ddysgu yw'r hyfforddiant diogelu gorfodol, a gaiff ei letya a'i fonitro gan adnoddau hyfforddiant academi'r Cyngor.<br>• Dylai unrhyw aelodau o staff nad ydynt yn gallu cael mynediad at yr e-ddysgu gael hyfforddiant wyneb yn wyneb ond nid yw'r Cyngor yn coladu ffigyrau cwblhau hyfforddiant o'r fath yn ganolog;<br>• O ran aelodau etholedig, fel a nodir uchod, dim ond yn ddiweddar y mae hyfforddiant diogelu wedi cael ei wneud yn orfodol, ond mae aelodau'n gallu cael mynediad at yr hyfforddiant e-ddysgu. Bydd hyfforddiant wyneb yn wyneb yn cael ei gynnig i aelodau ar gais a bydd cofnodion o hwnnw'n cael eu dal gan y Tîm Gwasanaethau Aelodau.<br>• Mae gan staff ysgolion fynediad at yr hyfforddiant e-ddysgu. Mae hyfforddiant ar lefel uwch ar gael hefyd. Ceir 'Cyflwyniad ymwybyddiaeth sylfaenol' Lefel 2 a ddarperir yn flynyddol mewn ysgolion gan yr Arweinydd Amddiffyn Plant ym mhob ysgol. Ysgolion sy'n dal y cofnodion hynny ar hyn o bryd ond o fis Medi 2019 bydd y Cyngor yn storio'r cofnodion hynny'n ganolog i sicrhau cydymffurfiaeth. Ceir hyfforddiant 'Uwch Berson Dynodedig' Lefel 3 hefyd a chaiff y cofnodion hyn eu dal yn ganolog.<br>• Nid yw hyfforddiant i lywodraethwyr yn orfodol yn genedlaethol; fodd bynnag, mae'r Cyngor yn rhagweithiol o ran hyfforddiant i lywodraethwyr ac mae'n darparu tair sesiwn hyfforddi ganolog ar ddiogelu bob blwyddyn i lywodraethwyr ysgol. Darperir yr hyfforddiant hwn gan y Tîm Diogelu Addysg. Bydd tair lefel i'r hyfforddiant i lywodraethwyr ym mlwyddyn academaidd 2019-20; mae Lefel 1 yn hyfforddiant 'Cyd-destun yr ysgol' a ddarperir gan y Pennaeth neu'r Uwch Berson Dynodedig, mae Lefel 2 yn 'Gyflwyniad Ymwybyddiaeth Sylfaenol' a ddarperir gan y Tîm Diogelu Addysg ar gyfer Cadeiryddion |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | Llywodraethwyr ac Arweinwyr Amddiffyn Plant ac mae Lefel 3 yn ‘Hyfforddiant Proses Rhan IV’ a ddarperir ar gyfer Cadeiryddion Llywodraethwyr. Mae unrhyw hyfforddiant diogelu a ddarperir gan y Tîm Diogelu Addysg yn cael ei logio gan y Gwasanaethau Llywodraethwyr.<br>• Mae’r Polisi Gwirfoddoli drafft yn nodi y bydd yn ofynnol i wirfoddolwyr gael yr hyfforddiant e-ddysgu neu’r hyfforddiant wyneb yn wyneb ar ddiogelu. Mae’r hyfforddiant e-ddysgu ar y system ‘Academi’ ac felly bydd yn cael ei gofnodi’n ganolog. Nid yw’r Cyngor wedi egluro ei drefniadau presennol ar gyfer hyfforddiant diogelu i wirfoddolwyr na ble y mae cofnodion ar gyfer hyfforddiant o'r fath yn cael eu dal. |
| • mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy’n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. | Heb ei roi ar waith – maes ar gyfer gwella wedi’i adnabod.<br>Nid yw darpariaethau cytundebol y Cyngor ar gyfer diogelu yn cynnwys nodi pa hyfforddiant diogelu sy’n ofynnol. |
| A6[3] Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â’r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill; | Wedi’i roi ar waith yn rhannol:<br>• Dim ond yn ddiweddar y mae’r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran rhoi’r argymhelliad hwn ar waith.<br>• O chwarter cyntaf 2019-20 ymlaen, bydd fframwaith perfformiad diogelu corfforaethol ar waith, gyda mesurau perfformiad ar gyfer diogelu corfforaethol, y bwriedir adrodd arnynt wrth y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ac, o bosibl, pwyllgorau craffu. Bydd y fframwaith yn ei gwneud yn bosibl ystyried data perfformiad seiliedig ar wasanaethau a |

[3] Llywodraeth Cymru oedd yn gyfrifol am ymateb i argymhelliad 5 felly nid yw wedi’i gynnwys uchod

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| • casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor. | data personél, megis cydymffurfiaeth â hyfforddiant diogelu a chydymffurfiaeth â recriwtio diogel.<br>• Ym mis Ionawr 2019, cafodd adroddiad cynnydd gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ei gyflwyno i ddau bwyllgor craffu ac i'r Cabinet ac, yn y dyfodol, bydd adroddiad o leiaf yn flynyddol. Cyn hyn, dim ond un adroddiad blynyddol ar ddiogelu corfforaethol a gyhoeddwyd, a hynny yn 2015-16; roedd adroddiadau o'r fath yn anodd i'w cynhyrchu gan nad oedd gwybodaeth berthnasol ar gael yn rhwydd gan Gyfarwyddiaethau.<br>• Roedd yr adroddiad cynnydd gan y Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn cynnwys ystyried cynnydd yn erbyn ein hargymhellion blaenorol.<br>• Cafodd yr adroddiad Archwilio Mewnol ar ddiogelu corfforaethol ym mis Ionawr 2019 ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli a chyfarfod Ansawdd a Pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>• Mae pwyllgorau craffu wedi cwblhau rhai ymchwiliadau Tasg a Gorffen a oedd yn ymwneud â diogelu ar bynciau megis Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Masnachu Pobl.<br>• O fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, mae monitro contractau'n cynnwys perfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynir o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor ond, hyd yma, nid yw hyn wedi bod yn digwydd ar draws Cyfarwyddiaethau eraill. Dylai'r fframwaith perfformiad diogelu corfforaethol newydd helpu i wella trefniadau yn yr ystyr y bydd mesurau i adnabod 'nifer y materion diogelu a godwyd gyda gwasanaeth trwyddedig/a gomisiynwyd/partneriaeth' ac 'adroddiad ansoddol ar ddatrys materion diogelu'. |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
| --- | --- | --- |
| A7 | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor. | Wedi'i roi ar waith yn rhannol:<br>• Mae'r Cyngor wedi bod yn araf yn ymateb i'r argymhelliad hwn o safbwynt corfforaeth gyfan. Tan yn ddiweddar nid yw'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi cynnal unrhyw adolygiadau o drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor. Fodd bynnag, fe gyhoeddodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adroddiad ar drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor ym mis Ionawr 2019 a bydd yn cynnal adolygiad dilynol yn 2019-20. Mae adolygiad o recriwtio gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn yr arfaeth ar gyfer 2019-20 hefyd.<br>• Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi profi cydymffurfiaeth a rheolaethau mewn perthynas â diogelu mewn meysydd risg uchel o fewn y cyfarwyddiaethau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg a Dysgu Gydol Oes. Arferai cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol. Er nad yw hyn yn digwydd mwyach, gall y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ofyn am gopïau o agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol ac rydym yn deall bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi adolygu'r papurau hyn fel rhan o'i archwiliad o ddiogelu corfforaethol. |
| A8 | Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. | Wedi'i roi ar waith yn rhannol:<br>• Er bod diogelu'n un o'r risgiau ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, mae'r Cyngor wedi bod yn araf yn ymateb i'r argymhelliad hwn ar lefel gwasanaethau y tu allan i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.<br>• Mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol fodel SBAR (Sefyllfa, Cefndir, Dadansoddiad, Argymhelliad) i helpu i adnabod risgiau, ac mae'r Cyngor yn bwriadu rhoi system debyg ar waith ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau o 2019-20. |

| Argymhellion o adroddiad 2015 | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|
| | • Nid yw diogelu wedi'i nodi fel risg ar lefel Cyfarwyddiaeth mewn Cyfarwyddiaethau heblaw'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys Addysg.<br>• Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol diwygiedig wedi cyflwyno proses hunanwerthuso newydd, a ddylai helpu Cyfarwyddiaethau i adnabod meysydd risg ar gyfer diogelu.<br>• O fis Ebrill 2019, bydd diogelu'n cael ei gynnwys yn natganiadau sicrwydd uwch reolwyr yr holl Gyfarwyddiaethau.<br>• Mae'r fframwaith perfformiad diogelu corfforaethol newydd yn cynnwys mesur perfformiad 'Nifer y risgiau diogelu a nodwyd yng nghofrestr risgiau cyfarwyddiaethau' a dylai hyn helpu i roi trosolwg well i'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol ar risgiau diogelu ar lefel Cyfarwyddiaethau. Mae'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol yn bwriadu sefydlu a chynnal cofrestr risgiau diogelu. |

# Asesiad o’r cynnydd yn erbyn y cynigion ar gyfer gwella o’n hadroddiad yn 2014

Arddangosyn 3: cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad lleol yn 2014 a anfonwyd at y Cyngor ym mis Hydref 2014

| Cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad lleol yn 2014 a anfonwyd at y Cyngor ym mis Hydref 2014 | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| C1 | Sicrhau bod y Cyngor yn datblygu trefniadau effeithiol i fonitro, gwerthuso a herio gwybodaeth a pherfformiad ym maes diogelu. | Gweler y naratif ar bwys argymhelliad 6 uchod. |
| C2 | Dylai’r Cyngor egluro pwy yw’r swyddogion dynodedig sydd â chyfrifoldeb am ddiogelu. | Wedi’i roi ar waith:<br>• Mae’r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Arweinwyr Diogelu Dynodedig a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2018. Mae hwn yn cynnwys yr holl swyddogion ar lefel Rheolwyr Gweithredol a rôl Swyddogion Arweiniol Diogelu Dynodedig yw arwain ar faterion diogelu yn eu meysydd gwasanaeth.<br>• Mae’r Polisi Diogelu Corfforaethol yn nodi bod Swyddogion Arweiniol Diogelu Cyfarwyddiaethol i weithredu fel ffynhonnell drosfwaol ar gyfer cyngor a chymorth mewn perthynas â diogelu i staff yn eu meysydd gwasanaeth.<br>• Y rheolwr gwasanaeth ar gyfer diogelu yw Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol. |

| Cynigion ar gyfer gwella yn ein hadroddiad lleol yn 2014 a anfonwyd at y Cyngor ym mis Hydref 2014 | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd y Cyngor |
|---|---|---|
| C3 | Gwella ystod, ansawdd a chwmpas adroddiadau ar berfformiad ym maes diogelu i ddarparu sicrwydd digonol bod trefniadau corfforaethol yn gweithio'n effeithiol. | Gweler y naratif ar bwys argymhelliad 6 uchod. |
| C4 | Gwella gwaith pwyllgorau craffu'r Cyngor i sicrhau ei fod yn darparu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor. | Gweler y naratif ar bwys argymhelliad 6 uchod. |
| C5 | Sicrhau bod yr holl aelodau etholedig a staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rheolaidd yn cael hyfforddiant ar faterion diogelu ac amddiffyn plant a pholisi corfforaethol y Cyngor ar ddiogelu. | Gweler y naratif ar bwys argymhelliad 5 uchod. |
| C6 | Adnabod a chytuno ar raglen briodol o waith archwilio mewnol ar gyfer diogelu ar draws y Cyngor. | Gweler y naratif ar bwys argymhelliad 7 uchod. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru